OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 19 (Cy. 7)

2025 No. 19 (W. 7)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025

The Civil Enforcement of Bus Lane and Moving Traffic Contraventions (County Borough of Merthyr Tydfil) Designation Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae'r ardal honno eisoes wedi ei dynodi'n ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio o dan y Ddeddf honno gan Orchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2011 (O.S. 2011/2868 (Cy. 307)).

Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud yn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Grŵp yr Economi, Ynni a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order designates the area described in the Schedule as a civil enforcement area for bus lane and moving traffic contraventions for the purposes of Part 6 of the Traffic Management Act 2004. That area is already designated as a civil enforcement area for parking contraventions under that Act by the Civil Enforcement of Parking Contraventions (County Borough of Merthyr Tydfil) Designation Order 2011 (S.I. 2011/2868 (W. 307)).

The practical effect of the Order is to enable Merthyr Tydfil County Borough Council to enforce bus lane and moving traffic contraventions within the area described in the Schedule to the Order through a civil law regime.

A full Regulatory Impact Assessment and Explanatory Memorandum can be obtained from the Orders Branch, Transport, Economy, Energy and Transport Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2025 Rhif 19 (Cy. 7)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025

Gwnaed		*8 Ionawr 2025*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru		*10 Ionawr 2025*
Yn dod i rym		*6 Chwefror 2025*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraffau 9(1) a 10(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("y Ddeddf")(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**2**).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o ardal y Cyngor hwnnw(**3**). Mae'r ardal i'w dynodi o dan y Gorchymyn yn ardal o fewn ardal, neu'n ardal sy'n gyfled ag ardal, sydd eisoes wedi ei dynodi'n ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio fel sy'n ofynnol gan baragraffau 9(2) a 10(2) o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu De Cymru yn unol â'r gofyniad a nodir ym mharagraff 10(4) o Atodlen 8 i'r Ddeddf.

(**1**) 2004 p. 18.
(**2**) Yn rhinwedd adran 92(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, diffiniwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) Gwnaed y cais o dan baragraffau 9 a 10 o Atodlen 8 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p. 18).

2025 No. 19 (W. 7)

ROAD TRAFFIC, WALES

The Civil Enforcement of Bus Lane and Moving Traffic Contraventions (County Borough of Merthyr Tydfil) Designation Order 2025

Made	*8 January 2025*
Laid before Senedd Cymru	*10 January 2025*
Coming into force	*6 February 2025*

This Order is made in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by paragraphs 9(1) and 10(1) of Schedule 8 to the Traffic Management Act 2004 ("the Act")(**1**) and now vested in the Welsh Ministers(**2**).

Merthyr Tydfil County Borough Council has applied to the Welsh Ministers for an Order to be made under these powers with respect to part of that Council's area(**3**). The area to be designated under the Order is an area within, or co-extensive with, an area already designated as a civil enforcement area for parking contraventions as required by paragraphs 9(2) and 10(2) of Schedule 8 to the Act.

The Welsh Ministers have consulted the chief officer of South Wales Police in accordance with the requirement set out in paragraph 10(4) of Schedule 8 to the Act.

(**1**) 2004 c. 18.
(**2**) By virtue of section 92(1) of the Traffic Management Act 2004, the National Assembly for Wales was defined as the appropriate national authority as regards Wales for the purposes of Part 6 of the Act. The functions of the National Assembly for Wales under the Act were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) The application was made under paragraphs 9 and 10 of Schedule 8 to the Traffic Management Act 2004 (c. 18).

Enwi a chychwyn

1. —(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Lonydd Bysiau a Thraffig sy'n Symud (Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Chwefror 2025.

Dynodi ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thraffig sy'n symud

2. Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau, a

(b) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau traffig sy'n symud.

Title and commencement

1. —(1) The title of this Order is the Civil Enforcement of Bus Lane and Moving Traffic Contraventions (County Borough of Merthyr Tydfil) Designation Order 2025.

(2) This Order comes into force on 6 February 2025.

Designation of civil enforcement area for bus lane and moving traffic contraventions

2. The Welsh Ministers designate the area described in the Schedule to this Order as—

(a) a civil enforcement area for bus lane contraventions, and

(b) a civil enforcement area for moving traffic contraventions.

Ken Skates

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru
8 Ionawr 2025

Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers
8 January 2025

YR ATODLEN Erthygl 2

Yr ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau lonydd bysiau a thramgwyddau traffig sy'n symud

Ardal gyfan Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac eithrio—

(a) y darn cyfan o'r A4060 o'i chyffordd â chylchfan Abercanaid yr A470 hyd at ei chyffordd â chylchfan Dowlais yr A465 gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Pentrebach, cylchfan Parc Busnes Triangle a chylchfan Mountain Hare;

(b) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 320 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Abercynon yr A470 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 895 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Cefncoedycymer gan gynnwys cerbytffordd gylchredol cylchfan Abercanaid, cylchfan Rhyd-y-car a chylchfan Swansea Road;

(c) y darn hwnnw o'r A470 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 351 o fetrau i'r de o gyffordd Upper High Street Cefncoedycymer yr A4054 hyd at y ffin â Sir Powys ym Mhont Llysiog, a

(d) y darn hwnnw o'r A465 o'r ffin â Bwrdeistref Sirol Caerffili wrth bwynt oddeutu 550 o fetrau i'r dwyrain o gylchfan Dowlais Top yr A465 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wrth bwynt oddeutu 13 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â'r B4276 Merthyr Road gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael a cherbytffordd gylchredol cylchfan Dowlais yr A465/A4060, cylchfan Dowlais Top yr A465 a chylchfan Cefncoedycymer.

SCHEDULE Article 2

Area designated as a civil enforcement area for bus lane contraventions and for moving traffic contraventions

The whole area of the County Borough of Merthyr Tydfil with the exception of—

(a) the entire length of the A4060 from its junction with the A470 Abercanaid roundabout to its junction with the A465 Dowlais roundabout including the circulatory carriageway of the Pentrebach roundabout, Triangle Business Park roundabout and Mountain Hare roundabout;

(b) that length of the A470 from the boundary with the County Borough of Rhondda Cynon Taff at a point approximately 320 metres north of the A470 Abercynon roundabout to the boundary with the County Borough of Rhondda Cynon Taff at a point approximately 895 metres north of the Cefn Coed roundabout including the circulatory carriageway of the Abercanaid roundabout, Rhydycar roundabout and Swansea Road roundabout;

(c) that length of the A470 from the boundary with the County Borough of Rhondda Cynon Taff at a point approximately 351 metres south of the A4054 Upper High Street Cefn Coed junction to the boundary with the County of Powys at Pont-Llysiog; and

(d) that length of the A465 from the boundary with the County Borough of Caerphilly at a point approximately 550 metres east of the A465 Dowlais Top roundabout to the boundary with the County Borough of Rhondda Cynon Taff at a point approximately 13 metres east of its junction with the B4276 Merthyr Road including all slip roads and the circulatory carriageway of the A465/A4060 Dowlais roundabout, A465 Dowlais Top roundabout and Cefn Coed roundabout.

©℗Hawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39643-0

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/19

9 780348 396430